**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CABINET**

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Llun, 5 Rhagfyr 2022 am 1.00 pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd B Harris
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd M Norris

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr D Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr N Elliott, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion

**84 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

**85 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2022, yn rhai cywir.

**86 Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd**

**PENDERFYNODD** y Cabinet nodi'r Cynllun Dirprwyo wedi'i ddiweddaru.

**87 Gofal Preswyl i Bobl Hŷn**

1. Trafod yr wybodaeth yn yr adroddiad a'r sylwadau a'r adborth sy'n codi o'r gwaith cyn y cam craffu a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â'r adroddiad drafft;

2. Yr opsiynau a ffefrir, fel sydd wedi'i nodi yn Adran 6, sef cadw'r ddarpariaeth gwasanaeth bresennol yn y pum cartref gofal preswyl isod (sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor):

   - Cwrt Clydach (Trealaw)
   - Tŷ Pentre (Pentre)
   - Tegfan (Trecynon)
   - Cae Glas (Y Ddraenen Wen)
   - Parc Newydd (Tonysguboriau)

3. Cychwyn ymgynghoriad cyhoeddus gyda'r unigolion a gafodd eu symud o Gartref Gofal Ystrad Fechan ym mis Awst eleni, yn ogystal â'u teuluoedd a'r staff, a rhanddeiliaid perthnasol eraill mewn perthynas â'r opsiwn a ffefrir sef datgomisiynu Cartref Gofal Ystrad Fechan yn barhaol a pharhau i archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu'r tir ger y cartref gofal presennol gyda Linc Cymru a'r Bwrdd Iechyd a hynny er mwyn darparu llety newydd â darpariaeth gofal. Bydd hyn yn cynnwys 40 fflat gofal ychwanegol ac 20 gwely preswyl ar gyfer gofal dementia, ynghyd ag opsiynau llety iechyd a gofal cymdeithasol eraill gan ddibynnu ar y safle datblygu a'r angen, fel sydd wedi'i nodi yn Adran 6 o'r adroddiad yma. Mae cartref gofal Ystrad Fechan ar gau dros dro ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw breswylwyr yn byw yno;

4. Cychwyn ymgynghoriad cyhoeddus gyda'r preswylwyr presennol, eu teuluoedd, staff a rhanddeiliaid eraill mewn perthynas â'r opsiwn a ffefrir sef gweithio gyda Linc Cymru i archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu'r tir ger cartref gofal Tŷ Glynrhedynog a hynny er mwyn darparu llety newydd â darpariaeth gofal. Bydd hyn yn cynnwys 20 fflat gofal ychwanegol a 10 gwely preswyl ar gyfer gofal dementia, a datgomisiynu cartref gofal Tŷ Glynrhedynog pan fydd y llety amgen arfaethedig wedi'i ddatblygu, fel sydd wedi'i nodi yn Adran 6 o'r adroddiad;

5. Cychwyn ymgynghoriad cyhoeddus gyda'r preswylwyr presennol, eu teuluoedd, staff a rhanddeiliaid eraill mewn perthynas â'r opsiwn a ffefrir sef gweithio gyda Linc Cymru i archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu'r tir ger cartref gofal Troed-y-rhiw a hynny er mwyn darparu llety newydd â darpariaeth gofal. Bydd hyn yn cynnwys 25 fflat gofal ychwanegol ac 15 gwely preswyl ar gyfer gofal dementia, a datgomisiynu cartref gofal Troed-y-rhiw pan fydd y llety amgen arfaethedig wedi'i ddatblygu, fel sydd wedi'i nodi yn Adran 6 o'r adroddiad;

6. Cychwyn ymgynghoriad cyhoeddus gyda'r preswylwyr presennol, eu teuluoedd, staff a rhanddeiliaid eraill mewn perthynas â'r opsiwn a ffefrir, sef datblygu cartref gofal Garth Olwg a hynny er mwyn darparu llety newydd â darpariaeth gofal i gefnogi oedolion ag anableddau dysgu a datgomisiynu cartref gofal Garth Olwg ar gyfer pobl hŷn pan fydd lleoliadau amgen wedi'u sefydlu ar gyfer y

preswylwyr presennol, a hynny mewn cartref o'u dewis sy'n bodloni'u hanghenion wedi'u hasesu.

7. Derbyn adroddiad pellach ar ôl i'r ymgynghoriad arfaethedig ddod i ben, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i ddiweddaru cyn i unrhyw benderfyniad terfynol gael ei wneud mewn perthynas â'r opsiynau a ffefrir ar gyfer dyfodol darpariaeth llety i bobl hŷn yng nghartrefi gofal preswyl y Cyngor.

**88 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**89 Dileu dyledion nad oes modd eu casglu**

Yn dilyn trafodaeth am adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 (fel y'i diwygiwyd), sef gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol unrhyw rai penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal yr wybodaeth honno), **PENDERFYNODD y Cabinet:**

1. Dileu'r cyfrifon sydd wedi'u nodi yn yr atodlen sydd wedi'i hatodi i'r Ddarpariaeth o Ddyledion sydd wedi'i chynnwys yng nghyfrifon y Cyngor (gan geisio taliad os daw rhagor o wybodaeth am unrhyw ddyled i'r amlwg).

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.20 pm**

**Cllr A Morgan**
**Cadeirydd.**